***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/09/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 3. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Amodau cydnabod safonol*

3 (1) Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio'r amodau safonol; ac os yw'n gwneud hynny, mae pob cydnabyddiaeth (pa un a'i rhoddir cyn neu ar ôl i'r diwygiadau ddod i rym) i fod yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u diwygiwyd.

(2) Mae is-baragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff 2(3) a (4).

(3) Os yw Cymwysterau Cymru yn diwygio'r amodau safonol, rhaid iddo—

(a) cyhoeddi'r amodau fel y'u diwygiwyd,

(b) hysbysu pob corff cydnabyddedig am y diwygiadau, a pha bryd y maent i gael effaith.

(4) Caiff Cymwysterau Cymru ddarparu bod diwygiad i'r amodau i gael effaith ar ddyddiadau gwahanol mewn perthynas â chyrff gwahanol, neu mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o gorff.

(5) Nid yw diwygiad i gael ei drin fel pe bai'n cael effaith mewn perthynas â chorff cyn i'r corff gael ei hysbysu amdano.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/09/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 3.